OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 417 (Cy. 133)

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2016

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer taliadau am wasanaethau a threuliau swyddogion canlyniadau mewn cysylltiad â chynnal etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sydd i'w cynnal ar y cyd ag etholiadau comisiynwyr heddlu a throseddu (yn unol â Phennod 6 o Ran 1 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011) ar yr un dyddiad yn 2016. Mae'r symiau a ddynodir yn y Gorchymyn hwn fel y cyfansymiau mwyaf sy'n adenilladwy am wasanaethau penodedig ac am dreuliau penodedig swyddogion canlyniadau wedi cymryd i ystyriaeth y darpariaethau a gynhwysir yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Cyfuno Etholiadau a Diwygio) 2016 (O.S. 2016/272) sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y costau hyn yn cael eu rhannu'n gyfartal rhwng etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac etholiadau comisiynwyr heddlu a throseddu.

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2011 (O.S. 2011/632 (Cy. 92)) a Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) (Diwygio) 2012 (O.S. 2012/2478 (Cy. 270)). Fe'i gwneir o dan erthygl 23 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (O.S. 2007/236). Mae erthygl 23 yn darparu bod hawl gan swyddog canlyniadau etholaeth neu swyddog canlyniadau rhanbarthol i adennill taliadau mewn cysylltiad â gwasanaethau a ddarparwyd neu dreuliau yr aed iddynt mewn cysylltiad ag etholiad Cynulliad.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2016 No. 417 (W. 133)

# REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

## The National Assembly for Wales (Returning Officers' Charges) Order 2016

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Order)*

This Order provides for payments for services and expenses of returning officers in connection with the conduct of the National Assembly for Wales elections which are to be held together with the elections of police and crime commissioners (in accordance with Chapter 6 of Part 1 of the Police Reform and Social Responsibility Act 2011) on the same date in 2016. The amounts indicated in this Order as being the maximum recoverable amounts for specified services and specified expenses of returning officers have taken into consideration the provisions contained within the National Assembly for Wales (Representation of the People) (Combination of Polls and Amendment) Order 2016 (S.I. 2016/272) which require these costs to be apportioned equally between the National Assembly for Wales elections and the elections of police and crime commissioners.

This Order revokes the National Assembly for Wales (Returning Officers' Charges) Order 2011 (S.I. 2011/632 (W. 92)) and the National Assembly for Wales (Returning Officers' Charges) (Amendment) Order 2012 (S.I. 2012/2478 (W. 270)). It is made under article 23 of the National Assembly for Wales (Representation of the People) Order 2007 (S.I. 2007/236). Article 23 provides that a constituency or a regional returning officer is entitled to recover charges in respect of services rendered or expenses incurred in connection with an Assembly election.

Mae erthyglau 4, 5 a 6 o’r Gorchymyn hwn yn pennu’r cyfansymiau mwyaf sy’n adenilladwy gan swyddogion canlyniadau etholaethau pob etholiad etholaeth Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod ag etholiad comisiynwyr heddlu a throseddu.

Mae’r tabl yn Atodlen 1 yn rhestru, yn ôl etholaeth, y cyfanswm mwyaf sy’n adenilladwy am wasanaethau penodedig (colofn 2), y cyfanswm mwyaf sy’n adenilladwy am dreuliau penodedig (colofn 3) a’r cyfanswm cyffredinol mwyaf sy’n adenilladwy (colofn 4).

Mae erthyglau 7, 8 a 9 yn pennu’r cyfansymiau mwyaf sy’n adenilladwy gan swyddogion canlyniadau rhanbarthol pob etholiad rhanbarthol y Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod ag etholiad comisiynwyr heddlu a throseddu.

Mae’r tabl yn Atodlen 2 yn rhestru, yn ôl rhanbarth etholiadol, y cyfanswm mwyaf sy’n adenilladwy am wasanaethau penodedig (colofn 2), y cyfanswm mwyaf sy’n adenilladwy am dreuliau penodedig (colofn 3) a’r cyfanswm cyffredinol mwyaf sy’n adenilladwy (colofn 4).

Yn achos etholiad nas ymleddir mewn etholaeth Cynulliad, mae erthygl 10 yn darparu nad yw erthyglau 4 i 6 yn gymwys. Yn lle hynny, y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy’n adenilladwy yw £1,750 am bob etholaeth Cynulliad.

Yn achos etholiad nas ymleddir mewn rhanbarth y Cynulliad, mae erthygl 11 yn darparu nad yw erthyglau 7 i 9 yn gymwys. Yn lle hynny, y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy’n adenilladwy yw £350 am bob rhanbarth y Cynulliad.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Gorchymyn hwn.

Articles 4, 5 and 6 of this Order specify the maximum amounts recoverable by constituency returning officers for each contested Assembly constituency election held on the same day as the election of police and crime commissioners.

The table in Schedule 1 lists by constituency the maximum recoverable amount for specified services (column 2), the maximum recoverable amount for specified expenses (column 3) and the overall maximum recoverable amount (column 4).

Articles 7, 8 and 9 specify the maximum amounts recoverable by regional returning officers for each contested Assembly regional election held on the same day as the election of police and crime commissioners.

The table in Schedule 2 lists by electoral region the maximum recoverable amount for specified services (column 2), the maximum recoverable amount for specified expenses (column 3) and the overall maximum recoverable amount (column 4).

In the case of an uncontested Assembly constituency election, article 10 provides that articles 4 to 6 do not apply. Instead the overall maximum recoverable amount is £1,750 for each Assembly constituency.

In the case of an uncontested Assembly regional election, article 11 provides that articles 7 to 9 do not apply. Instead the overall maximum recoverable amount is £350 for each Assembly region.

The Welsh Ministers’ Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as the likely costs and benefits of complying with this Order.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 417 (Cy. 133)

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *15 Mawrth 2016* |
| *Yn dod i rym* | *16 Mawrth 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 23 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn—

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2016.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Mawrth 2016.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

mae "etholaeth Cynulliad" ("*Assembly constituency*") i'w ddehongli yn unol ag adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**3**);

(**1**) O.S. 2007/236.
(**2**) Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 1 iddi, trosglwyddwyd pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru.
(**3**) 2006 p. 32.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2016 No. 417 (W. 133)

# REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

## The National Assembly for Wales (Returning Officers' Charges) Order 2016

| | |
|---|---|
| *Made* | *15 March 2016* |
| *Coming into force* | *16 March 2016* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales by article 23 of the National Assembly for Wales (Representation of the People) Order 2007(**1**) and now vested in them(**2**), make the following Order—

### Title, commencement and application

**1.**—(1) The title of this Order is the National Assembly for Wales (Returning Officers' Charges) Order 2016.

(2) This Order comes into force on 16 March 2015.

(3) This Order applies in relation to Wales.

### Interpretation

**2.** In this Order—

"Assembly constituency" ("*etholaeth Cynulliad*") is to be construed in accordance with section 2 of the Government of Wales Act 2006(**3**);

(**1**) S.I. 2007/236.
(**2**) By virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 1 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), the powers of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers.
(**3**) 2006 c. 32.

ystyr “etholiad comisiynydd heddlu a throseddu” (“*PCC election*”) yw etholiad comisiynydd heddlu a throseddu yn unol â Phennod 6 o Ran 1 o Ddeddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011(**1**);

mae “rhanbarth etholiadol Cynulliad” (“*Assembly electoral region*”) i’w ddehongli yn unol ag adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

“Assembly electoral region” (“*rhanbarth etholiadol Cynulliad*”) is to be construed in accordance with section 2 of the Government of Wales Act 2006;

“PCC election” (“*etholiad comisiynydd heddlu a throseddu*”) means the election of a police and crime commissioner in accordance with Chapter 6 of Part 1 of the Police Reform and Social Responsibility Act 2011(**1**).

**Dirymu**

**3.** Mae’r gorchmynion a ganlyn wedi eu dirymu—

(a) Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2011(**2**); a

(b) Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) (Diwygio) 2012(**3**).

**Revocation**

**3.** The following orders are revoked—

(a) the National Assembly for Wales (Returning Officers’ Charges) Order 2011(**2**); and

(b) the National Assembly for Wales (Returning Officers’ Charges) (Amendment) Order 2012(**3**).

**Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy’n adenilladwy am etholiad etholaeth Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod ag etholiad comisiynydd heddlu a throseddu**

**4.** Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy’n adenilladwy am etholiad etholaeth Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod ag etholiad comisiynydd heddlu a throseddu yw’r swm a restrir yng ngholofn 4 o’r tabl yn Atodlen 1.

**Overall maximum recoverable amount for a contested Assembly constituency election held on the same day as a PCC election**

**4.** The overall maximum recoverable amount for a contested Assembly constituency election held on the same day as a PCC election is the amount listed in column 4 of the table in Schedule 1.

**Y cyfanswm mwyaf sy’n adenilladwy am wasanaethau penodedig mewn etholiad etholaeth Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod ag etholiad comisiynydd heddlu a throseddu**

**5.**—(1) Rhaid i gyfanswm y taliadau y caiff swyddog canlyniadau etholaeth eu hadennill mewn etholiad etholaeth Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod ag etholiad comisiynydd heddlu a throseddu mewn cysylltiad â gwasanaethau penodedig beidio â bod yn fwy na’r swm a restrir ar gyfer pob etholaeth Cynulliad yng ngholofn 2 o’r tabl yn Atodlen 1.

(2) Y gwasanaethau penodedig yw—

(a) gwneud trefniadau ar gyfer yr etholiad;

(b) cynnal yr etholiad;

(c) cyflawni holl ddyletswyddau swyddog canlyniadau etholaeth mewn cysylltiad â’r etholiad.

**Maximum recoverable amount for specified services at a contested Assembly constituency election held on the same day as a PCC election**

**5.**—(1) The total of the charges recoverable by a constituency returning officer at a contested Assembly constituency election held on the same day as a PCC election in respect of specified services must not exceed the amount listed for each Assembly constituency in column 2 of the table in Schedule 1.

(2) The specified services are—

(a) making arrangements for the election;

(b) conducting the election;

(c) discharging all of the constituency returning officer’s duties in respect of the election.

(**1**) 2011 p. 13.
(**2**) O.S. 2011/632 (Cy. 92).
(**3**) O.S. 2012/2478 (Cy. 270).

(**1**) 2011 c. 13.
(**2**) S.I. 2011/632 (W. 92).
(**3**) S.I. 2012/2478 (W. 270).

**Y cyfanswm mwyaf sy'n adenilladwy am dreuliau penodedig mewn etholiad etholaeth Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod ag etholiad comisiynydd heddlu a throseddu**

**6.**—(1) Rhaid i gyfanswm y taliadau y caiff swyddog canlyniadau etholaeth eu hadennill mewn etholiad etholaeth Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod ag etholiad comisiynydd heddlu a throseddu mewn cysylltiad â threuliau penodedig beidio â bod yn fwy na'r swm a restrir ar gyfer pob etholaeth Cynulliad yng ngholofn 3 o'r tabl yn Atodlen 1.

(2) Y treuliau penodedig yw—

(a) penodi a thalu personau i gynorthwyo'r swyddog canlyniadau etholaeth;

(b) treuliau teithio a chynhaliaeth dros nos y swyddog canlyniadau etholaeth ac unrhyw berson a benodir i gynorthwyo'r swyddog canlyniadau etholaeth;

(c) costau'r broses enwebu;

(d) argraffu neu gynhyrchu fel arall y papurau pleidleisio;

(e) argraffu neu gynhyrchu fel arall neu brynu deunyddiau pleidleisio drwy'r post;

(f) argraffu neu gynhyrchu fel arall gardiau pleidleisio, a threfnu i'w dosbarthu;

(g) argraffu neu gynhyrchu fel arall yr holl hysbysiadau a dogfennau etholiad, a'u cyhoeddi;

(h) rhentu, gwresogi, goleuo, glanhau, addasu neu adfer unrhyw adeilad neu ystafell;

(i) darparu a chludo cyfarpar;

(j) darparu cyfarpar a meddalwedd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a chostau cysylltiedig;

(k) darparu diogelwch, gan gynnwys storio blychau pleidleisio, papurau pleidleisio a dogfennau gwirio yn ddiogel;

(l) cynnal y gwirio a'r cyfrif;

(m) darparu a chael hyfforddiant;

(n) darparu deunyddiau ysgrifennu a thalu costau postio, ffonio, argraffu, cyfieithu a bancio a chostau eitemau amrywiol eraill.

**Maximum recoverable amount for specified expenses at a contested Assembly constituency election held on the same day as a PCC election**

**6.**—(1) The total of the charges recoverable by a constituency returning officer at a contested Assembly constituency election held on the same day as a PCC election in respect of specified expenses must not exceed the amount listed for each Assembly constituency in column 3 of the table in Schedule 1.

(2) The specified expenses are—

(a) the appointment and payment of persons to assist the constituency returning officer;

(b) travel and overnight subsistence for the constituency returning officer and any person appointed to assist the constituency returning officer;

(c) the costs of the nomination process;

(d) printing or otherwise producing the ballot papers;

(e) printing or otherwise producing or purchasing postal vote stationery;

(f) printing or otherwise producing, and arranging for the delivery of, poll cards;

(g) printing or otherwise producing and publishing all election notices and documents;

(h) renting, heating, lighting, cleaning, adapting or restoring any building or room;

(i) providing and transporting equipment;

(j) providing information and communications technology equipment and software and associated costs;

(k) providing security, including secure storage of ballot boxes, ballot papers and verification documents;

(l) conducting the verification and the count;

(m) providing and receiving training;

(n) providing stationery and meeting postage, telephone, printing, translation and banking costs and the costs of other miscellaneous items.

**Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy am etholiad rhanbarthol y Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod ag etholiad comisiynydd heddlu a throseddu**

**7.** Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy am etholiad rhanbarthol y Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod ag etholiad comisiynydd heddlu a throseddu yw'r swm a restrir yng ngholofn 4 o'r tabl yn Atodlen 2.

**Y cyfanswm mwyaf sy'n adenilladwy am wasanaethau penodedig mewn etholiad rhanbarthol y Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod ag etholiad comisiynydd heddlu a throseddu**

**8.**—(1) Rhaid i gyfanswm y taliadau y caiff swyddog canlyniadau rhanbarthol eu hadennill mewn etholiad rhanbarthol y Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod ag etholiad comisiynydd heddlu a throseddu mewn cysylltiad â gwasanaethau penodedig beidio â bod yn fwy na'r swm a restrir ar gyfer pob rhanbarth etholiadol Cynulliad yng ngholofn 2 o'r tabl yn Atodlen 2.

(2) Y gwasanaethau penodedig yw—

(a) gwneud trefniadau ar gyfer yr etholiad;

(b) cynnal yr etholiad;

(c) cyflawni holl ddyletswyddau swyddog canlyniadau rhanbarthol mewn cysylltiad â'r etholiad.

**Y cyfanswm mwyaf sy'n adenilladwy am dreuliau penodedig mewn etholiad rhanbarthol y Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod ag etholiad comisiynydd heddlu a throseddu**

**9.**—(1) Rhaid i gyfanswm y taliadau y caiff swyddog canlyniadau rhanbarthol eu hadennill mewn etholiad rhanbarthol y Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod ag etholiad comisiynydd heddlu a throseddu, mewn cysylltiad â threuliau penodedig, beidio â bod yn fwy na'r swm a restrir ar gyfer pob rhanbarth etholiadol Cynulliad yng ngholofn 3 o'r tabl yn Atodlen 2.

(2) Y treuliau penodedig yw—

(a) penodi a thalu personau i gynorthwyo'r swyddog canlyniadau rhanbarthol;

(b) treuliau teithio a chynhaliaeth dros nos y swyddog canlyniadau rhanbarthol ac unrhyw berson a benodir i gynorthwyo'r swyddog canlyniadau rhanbarthol;

(c) costau'r broses enwebu;

**Overall maximum recoverable amount for a contested Assembly regional election held on the same day as a PCC election**

**7.** The overall maximum recoverable amount for a contested Assembly regional election held on the same day as a PCC election is the amount listed in column 4 of the table in Schedule 2.

**Maximum recoverable amount for specified services at a contested Assembly regional election held on the same day as a PCC election**

**8.**—(1) The total of the charges recoverable by a regional returning officer at a contested Assembly regional election held on the same day as a PCC election in respect of specified services must not exceed the amount listed for each Assembly electoral region in column 2 of the table in Schedule 2.

(2) The specified services are—

(a) making arrangements for the election;

(b) conducting the election;

(c) discharging all of the regional returning officer's duties in respect of the election.

**Maximum recoverable amount for specified expenses at a contested Assembly regional election held on the same day as a PCC election**

**9.**—(1) The total of the charges recoverable by a regional returning officer at a contested Assembly regional election held on the same day as a PCC election in respect of specified expenses must not exceed the amount listed for each Assembly electoral region in column 3 of the table in Schedule 2.

(2) The specified expenses are—

(a) the appointment and payment of persons to assist the regional returning officer;

(b) travel and overnight subsistence for the regional returning officer and any person appointed to assist the regional returning officer;

(c) the costs of the nomination process;

(d) argraffu neu gynhyrchu fel arall hysbysiadau etholiad, a'u cyhoeddi;

(e) argraffu neu gynhyrchu fel arall y papurau pleidleisio;

(f) darparu deunyddiau ysgrifennu a thalu costau postio, ffonio, argraffu, cyfieithu a bancio a chostau eitemau amrywiol eraill.

**Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy mewn etholiad etholaeth Cynulliad nas ymleddir**

**10.** Mewn etholiad etholaeth Cynulliad nas ymleddir—

(a) nid yw erthyglau 4 i 6 yn gymwys; a

(b) y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy am wasanaethau a threuliau yw £1,750.00 (un fil a saith gant a hanner o bunnoedd) am bob etholaeth.

**Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy mewn etholiad rhanbarthol y Cynulliad nas ymleddir**

**11.** Mewn etholiad rhanbarthol y Cynulliad nas ymleddir—

(a) nid yw erthyglau 7 i 9 yn gymwys; a

(b) y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy am wasanaethau a threuliau yw £350.00 (tri chant a hanner o bunnoedd) am bob rhanbarth.

(d) printing or otherwise producing and publishing election notices;

(e) printing or otherwise producing the ballot papers;

(f) providing stationery and meeting postage, telephone, printing, translation and banking costs and the costs of other miscellaneous items.

**Overall maximum recoverable amount at an uncontested Assembly constituency election**

**10.** At an uncontested Assembly constituency election—

(a) articles 4 to 6 do not apply; and

(b) the overall maximum recoverable amount for services and expenses for each constituency is £1,750.00 (one thousand seven hundred and fifty pounds).

**Overall maximum recoverable amount at an uncontested Assembly regional election**

**11.** At an uncontested Assembly regional election—

(a) articles 7 to 9 do not apply; and

(b) the overall maximum recoverable amount for services and expenses for each region is £350.00 (three hundred and fifty pounds).

*Leighton Andrews*

Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, un o Weinidogion Cymru
15 Mawrth 2016

Minister for Public Services, one of the Welsh Ministers
15 March 2016

# ATODLEN 1 Erthyglau 4, 5(1) a 6(1)

## Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy a'r cyfansymiau mwyaf sy'n adenilladwy am wasanaethau penodedig ac am dreuliau penodedig mewn etholiad etholaeth Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod ag etholiad comisiynydd heddlu a throseddu

| 1.<br>Etholaeth Cynulliad | 2.<br>Cyfanswm mwyaf sy'n adenilladwy am y gwasanaethau penodedig | 3.<br>Cyfanswm mwyaf sy'n adenilladwy am y treuliau penodedig | 4.<br>Cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy |
|---|---:|---:|---:|
| Aberafan | £4,730.00 | £78,300.00 | £83,030.00 |
| Aberconwy | £4,730.00 | £74,791.00 | £79,521.00 |
| Alun a Glannau Dyfrdwy | £4,730.00 | £78,247.00 | £82,977.00 |
| Arfon | £4,730.00 | £53,033.00 | £57,763.00 |
| Blaenau Gwent | £4,730.00 | £83,885.00 | £88,615.00 |
| Bro Morgannwg | £4,730.00 | £154,592.00 | £159,322.00 |
| Brycheiniog a Sir Faesyfed | £4,730.00 | £82,353.00 | £87,083.00 |
| Caerffili | £4,730.00 | £82,797.00 | £87,527.00 |
| Canol Caerdydd | £4,730.00 | £97,476.00 | £102,206.00 |
| Castell-nedd | £4,730.00 | £87,369.00 | £92,099.00 |
| Ceredigion | £4,730.00 | £92,231.00 | £96,961.00 |
| Cwm Cynon | £4,730.00 | £74,772.00 | £79,502.00 |
| De Caerdydd a Phenarth | £4,730.00 | £124,167.00 | £128,897.00 |
| De Clwyd | £4,730.00 | £77,729.00 | £82,459.00 |
| Delyn | £4,730.00 | £76,748.00 | £81,478.00 |
| Dwyfor Meirionnydd | £4,730.00 | £66,589.00 | £71,319.00 |
| Dwyrain Abertawe | £4,730.00 | £67,269.00 | £71,999.00 |
| Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr | £4,730.00 | £97,561.00 | £102,291.00 |
| Dwyrain Casnewydd | £4,730.00 | £87,003.00 | £91,733.00 |
| Dyffryn Clwyd | £4,730.00 | £87,230.00 | £91,960.00 |
| Gogledd Caerdydd | £4,730.00 | £120,200.00 | £124,930.00 |
| Gorllewin Abertawe | £4,730.00 | £67,494.00 | £72,224.00 |
| Gorllewin Caerdydd | £4,730.00 | £112,966.00 | £117,696.00 |
| Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro | £4,730.00 | £96,423.00 | £101,153.00 |
| Gorllewin Casnewydd | £4,730.00 | £89,112.00 | £93,842.00 |
| Gorllewin Clwyd | £4,730.00 | £97,530.00 | £102,260.00 |
| Gŵyr | £4,730.00 | £73,880.00 | £78,610.00 |
| Islwyn | £4,730.00 | £74,543.00 | £79,273.00 |
| Llanelli | £4,730.00 | £90,871.00 | £95,601.00 |
| Merthyr Tudful a Rhymni | £4,730.00 | £83,531.00 | £88,261.00 |
| Mynwy | £4,730.00 | £105,161.00 | £109,891.00 |
| Ogwr | £4,730.00 | £90,819.00 | £95,549.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr | £4,730.00 | £91,963.00 | £96,693.00 |
| Pontypridd | £4,730.00 | £80,025.00 | £84,755.00 |
| Preseli Sir Benfro | £4,730.00 | £94,370.00 | £99,100.00 |
| Rhondda | £4,730.00 | £78,984.00 | £83,714.00 |
| Sir Drefaldwyn | £4,730.00 | £65,864.00 | £70,594.00 |
| Torfaen | £4,730.00 | £77,098.00 | £81,828.00 |
| Wrecsam | £4,730.00 | £64,516.00 | £69,246.00 |
| Ynys Môn | £4,730.00 | £100,671.00 | £105,401.00 |

## ATODLEN 2 Erthyglau 7, 8(1) a 9(1)

## Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy a'r cyfansymiau mwyaf sy'n adenilladwy am wasanaethau penodedig ac am dreuliau penodedig mewn etholiad rhanbarthol y Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod ag etholiad comisiynydd heddlu a throseddu

| 1. Rhanbarth Etholiadol Cynulliad | 2. Cyfanswm mwyaf sy'n adenilladwy am y gwasanaethau penodedig | 3. Cyfanswm mwyaf sy'n adenilladwy am y treuliau penodedig | 4. Cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy |
|---|---|---|---|
| Canol De Cymru | £2,400.00 | £17,573.00 | £19,973.00 |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | £2,400.00 | £15,157.00 | £17,557.00 |
| Dwyrain De Cymru | £2,400.00 | £16,529.00 | £18,929.00 |
| Gogledd Cymru | £2,400.00 | £16,645.00 | £19,045.00 |
| Gorllewin De Cymru | £2,400.00 | £14,089.00 | £16,489.00 |

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

## SCHEDULE 1 Articles 4, 5(1) and 6(1)

## Overall maximum recoverable amount and maximum recoverable amounts for specified services and specified expenses at a contested Assembly constituency election held on the same day as a PCC election

| 1.<br>Assembly Constituency | 2.<br>Maximum recoverable amount for the specified services | 3.<br>Maximum recoverable amount for the specified expenses | 4.<br>Overall maximum recoverable amount |
|---|---|---|---|
| Aberavon | £4,730.00 | £78,300.00 | £83,030.00 |
| Aberconwy | £4,730.00 | £74,791.00 | £79,521.00 |
| Alyn and Deeside | £4,730.00 | £78,247.00 | £82,977.00 |
| Arfon | £4,730.00 | £53,033.00 | £57,763.00 |
| Blaenau Gwent | £4,730.00 | £83,885.00 | £88,615.00 |
| Brecon and Rednorshire | £4,730.00 | £82,353.00 | £87,083.00 |
| Bridgend | £4,730.00 | £91,963.00 | £96,693.00 |
| Caerphilly | £4,730.00 | £82,797.00 | £87,527.00 |
| Cardiff Central | £4,730.00 | £97,476.00 | £102,206.00 |
| Cardiff North | £4,730.00 | £120,200.00 | £124,930.00 |
| Cardiff South and Penarth | £4,730.00 | £124,167.00 | £128,897.00 |
| Cardiff West | £4,730.00 | £112,966.00 | £117,696.00 |
| Carmarthen East and Dinefwr | £4,730.00 | £97,561.00 | £102,291.00 |
| Carmarthen West and South Pembrokeshire | £4,730.00 | £96,423.00 | £101,153.00 |
| Ceredigion | £4,730.00 | £92,231.00 | £96,961.00 |
| Clwyd South | £4,730.00 | £77,729.00 | £82,459.00 |
| Clwyd West | £4,730.00 | £97,530.00 | £102,260.00 |
| Cynon Valley | £4,730.00 | £74,772.00 | £79,502.00 |
| Delyn | £4,730.00 | £76,748.00 | £81,478.00 |
| Dwyfor Meirionnydd | £4,730.00 | £66,589.00 | £71,319.00 |
| Gower | £4,730.00 | £73,880.00 | £78,610.00 |
| Islwyn | £4,730.00 | £74,543.00 | £79,273.00 |
| Llanelli | £4,730.00 | £90,871.00 | £95,601.00 |
| Merthyr Tydfil and Rhymney | £4,730.00 | £83,531.00 | £88,261.00 |
| Monmouth | £4,730.00 | £105,161.00 | £109,891.00 |
| Montgomeryshire | £4,730.00 | £65,864.00 | £70,594.00 |
| Neath | £4,730.00 | £87,369.00 | £92,099.00 |
| Newport East | £4,730.00 | £87,003.00 | £91,733.00 |
| Newport West | £4,730.00 | £89,112.00 | £93,842.00 |
| Ogmore | £4,730.00 | £90,819.00 | £95,549.00 |
| Pontypridd | £4,730.00 | £80,025.00 | £84,755.00 |
| Preseli Pembrokeshire | £4,730.00 | £94,370.00 | £99,100.00 |
| Rhondda | £4,730.00 | £78,984.00 | £83,714.00 |
| Swansea East | £4,730.00 | £67,269.00 | £71,999.00 |
| Swansea West | £4,730.00 | £67,494.00 | £72,224.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Torfaen | £4,730.00 | £77,098.00 | £81,828.00 |
| Vale of Clwyd | £4,730.00 | £87,230.00 | £91,960.00 |
| Vale of Glamorgan | £4,730.00 | £154,592.00 | £159,322.00 |
| Wrexham | £4,730.00 | £64,516.00 | £69,246.00 |
| Ynys Môn | £4,730.00 | £100,671.00 | £105,401.00 |

## SCHEDULE 2 Articles 7, 8(1) and 9(1)

## Overall maximum recoverable amount and maximum recoverable amounts for specified services and specified expenses at a contested Assembly regional election held on the same day as a PCC election

| 1. Assembly Electoral Region | 2. Maximum recoverable amount for the specified services | 3. Maximum recoverable amount for the specified expenses | 4. Overall maximum recoverable amount |
|---|---|---|---|
| Mid and West Wales | £2,400.00 | £15,157.00 | £17,557.00 |
| North Wales | £2,400.00 | £16,645.00 | £19,045.00 |
| South Wales Central | £2,400.00 | £17,573.00 | £19,973.00 |
| South Wales East | £2,400.00 | £16,529.00 | £18,929.00 |
| South Wales West | £2,400.00 | £14,089.00 | £16,489.00 |

© Crown copyright 2016

Printed and Published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 417 (Cy. 133)

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2016

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2016 No. 417 (W. 133)

# REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

The National Assembly for Wales (Returning Officers' Charges) Order 2016

ISBN 978-0-348-11295-5

9 780348 112955

£6.00

W2654/03/16 ON